

LLAWLYFR I DENANTIAID RHANDIROEDD



NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD



Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

I. CYFLWYNIAD

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd 24 o safleoedd rhandir gyda dros 1,000 o leiniau o dan ei awdurdod.

Nod y cyngor yw darparu cyfleuster sy'n ddeniadol i denantiaid y rhandiroedd ac i'r cyhoedd.

Mae gan denantiaid ran fawr i'w chwarae yn y gwaith o wella eu safleoedd – er enghraifft, y tenant sy'n gyfrifol am y llwybrau rhwng lleiniau a chânt eu hannog i gynnal a chadw'r ardaloedd hyn.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw arwyddion o fandaliaeth naill ai i ysgrifennydd y safle neu i'r cyngor ar (01633) 656656. Os hoffech chi neu unrhyw un yr ydych yn ei adnabod rentu rhandir, ffoniwch y cyngor ar (01633) 656656 a gofynnwch am y swyddog rhandiroedd neu gofynnwch i'ch ysgrifennydd safle lleol.

Mae gwybodaeth am hyn hefyd ar y wefan – newport.gov.uk/cy/Leisure-Tourism/Allotments

2. SAFLEOEDD RHANDIR

Dylai pob safle rhandir wneud ei orau i weithio gyda natur yn hytrach nag yn ei herbyn. Mae hyn yn golygu gwneud y canlynol:

- Dylid osgoi rheoli plâu drwy ddefnyddio cemegau.
- Mae'r defnydd o gompost mawn gan arddwyr amatur yn debygol o ddod i ben erbyn 2024 a dylai tenantiaid ddechrau chwilio am gompost arall nawr yn hytrach na'i adael tan yn hwyrach. Gall compostio ar y safle helpu gyda hyn.
- Dylai ysgrifenyddion safle gefnogi sefydlu ardaloedd neilltuedig ar gyfer bioamrywiaeth ac i greu cynefinoedd naill ai ar y safle neu ar leiniau unigol; gall hyn fod yn rhywbeth mor syml â gosod blwch adar neu flwch chwilod, creu pwll, neu blannu blodau gwyllt. Gofynnwch am ganiatâd gan ysgrifennydd eich safle neu'r swyddog rhandiroedd cyn cychwyn ar brosiectau mwy.
- Dylid annog perllannau bach lle gall pob tenant fwynhau'r ffrwythau a gaiff eu cynaeafu. Dylid rhannu ffrwythau o berllannau o'r fath.

Bydd y cyngor yn ymdrechu i gefnogi hyn lle bynnag y gallwn.

3. SAFLEOEDD A HUNANREOLIR

Mae dau safle a hunanreolir yng Nghasnewydd. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandiroedd o blaid hunanreoli ac anogir pob safle i ystyried mabwysiadu'r dull hwn o reoli.

Mae hunanreoli yn rhoi sicrwydd cyllid yn flynyddol ac yn cynnig mwy o gyfle i leisio barn o fewn y pwyllgor ac ymhlith ei aelodau ynglŷn â sut y rheolir y safle.

Yn gyfnewid am hyn, tenantiaid sy'n gyfrifol am y bil dŵr, rheoli'r safle, cadw cofnodion o wariant a chynnal a chadw'r ardaloedd glaswelltog, gosod y rhandiroedd a chwblhau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â hynny, a sicrhau bod y cyngor yn derbyn copiau ar gyfer ei gofnodion.

Y cyngor fydd yn gyfrifol am lythyrau nad ydynt yn ymwneud â thrin y tir ac yn gyfrifol am droi allan.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch (01633) 656656 a gofynnwch am y swyddog rhandiroedd.

Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

4. GWNEUD CAIS AM RANDIR

I wneud cais am randir, ewch i newport.gov.uk/cy/Leisure-Tourism/Allotments

Neu ffoniwch Gyngor Dinas Casnewydd ar (01633) 656656 a gofynnwch am fanylion cyswllt ysgrifennydd eich safle rhandiroedd lleol neu'r swyddog rhandiroedd.

Mae rhestrau aros ar draws ein holl safleoedd, ond gall preswylwyr gofrestru eu manylion gyda mwy nag un safle os dymunant. Fel rhan o'r broses o wneud cais, bydd y cyngor yn chwilio i weld a oes gennych daliadau'n ddyledus i adrannau eraill o'r cyngor neu os ydych wedi cael eich troi allan o'n gwasanaeth rhandiroedd yn y gorffennol oherwydd peidio â thalu.

Mewn achosion o'r fath, gwrthodir rhandir i ddarpar denant.

5. RHENTI

Telir y rhent yn flynyddol. Ar ôl derbyn rhandir, byddwch yn derbyn anfoneb a bydd anfonebau dilynol yn cael eu hanfon bob mis Ebrill os yw tenant yn parhau â'i denantiaeth.

Byddwch yn talu swm penodol bob blwyddyn er mwyn bod yn denant ac i rentu llain. Yn ogystal â hyn, bydd angen i chi dalu swm pellach a fydd yn ddibynnol ar faint y llain. Mae hwn yn cael ei fesur fesul 'perc', sy'n fesuriad imperial o arwynebedd. Mae perc tua 25 metr sgwâr. Gall rhai lleiniau fod yn fwy na'i gilydd felly fe fydd y symiau sydd i'w talu am lain yn gallu amrywio. Os yw llain yn rhy fawr, gallwch drafod hyn ag ysgrifennydd y safle ac efallai y gellir newid y ffi perc. Ni fydd y ffi denantiaeth yn newid gan fod hon yn swm safonol ar gyfer pob tenant.

Mae ffioedd ar gyfer lleiniau a pherci yn newid bob blwyddyn a gellir gweld y ffioedd diweddaraf ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn newport.gov.uk/cy/Leisure-Tourism/Allotments

6. POB TENANT

Rhaid i bob tenant gael y canlynol:

- bin, blwch neu uned gaeedig ar gyfer compost
- o leiaf ddwy gasgen ddŵr; yn ddelfrydol, dylid cysylltu'r rhain â tho er mwyn dal dŵr glaw yn effeithiol

Rydym yn gofyn i denantiaid presennol roi hyn ar waith erbyn mis Ebrill 2023.

Bydd disgwyl i denantiaid newydd wneud hyn o fewn chwe wythnos o gymryd eu llain.

Bydd methu â gosod y rhain yn arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio a bydd camau pellach yn cael eu cymryd.

7. TENANTIAID NEWYDD

Bydd cyfnod prawf o 12 mis ar gyfer pob tenant newydd a bydd gofyn iddynt drin eu llain neu leiniau o ddyddiad dechrau eu cyfnod prawf fel a ganlyn:

- 25% o fewn tri mis
- 50% o fewn chwe mis
- 100% o fewn 12 mis

Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

8. CYFLEUSTERAU

- Mae dŵr yn cael ei gyflenwi i'r rhan fwyaf o safleoedd rhandir gan ddefnyddio cafnau rheoledig a gellir ond defnyddio caniau dŵr neu fwcedi i ddyfrio planhigion. Nodwch os gwelwch yn dda:
 - a) Gwaherddir gosod tapiau dŵr
 - b) Mae dŵr ar gael o fis Ebrill i fis Hydref
- Mae tenantiaid yn gyfrifol am y llwybrau rhwng lleiniau a dylid eu cadw mewn cyflwr da er mwyn gwneud yn siŵr nad yw pobl yn baglu. Bydd angen i'r tenant waredu unrhyw weddillion neu sgil-gynhyrchion. Rhaid i unrhyw weddillion a adawyd ar y prif lwybrau gan denant gael eu glanhau ar unwaith.
- Mae ffensys a gatau diogel ym mhob safle rhandir ac mae gan bob tenant allweddi ar gyfer mynediad. Eiddo Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rhain a rhaid eu dychwelyd pan ddaw'r cytundeb i ben. Bydd methu â chydymffurfio yn arwain at godi tâl am allwedd newydd.
- Mae cyfleusterau parcio ar gael naill ai ar y safle neu gerllaw. Cofiwch fod yn rhaid cadw'r ffyrdd yn glir bob amser rhag ofn y bydd angen i gerbydau brys ddod i'r safle.
- Gellir codi siediau neu dai gwydr heb fod yn fwy nag 8' x 6' ac o safon gymeradwy ar y lleiniau gyda chaniatâd ysgrifenedig Cyngor Dinas Casnewydd.
- Nid oes cyfleusterau toiled ar y safle.
- Bydd ysgrifennydd y safle yn rhoi gwybod i chi os bydd gan y safle gyflenwad o ddeunydd i'w rannu rhwng y tenantiaid (er enghraifft, compost, sglodion pren neu dail).

9. YN YSTOD EICH TENANTIAETH

Efallai y byddwch yn dewis cael rhywun i'ch cynorthwyo gyda'r llain. Gall hwn fod yn gydweithiwr. Os dymunwch wneud hyn gyda'ch llain, rhaid rhoi'r manylion i ysgrifennydd y safle neu'r swyddog rhandiroedd. Cyfrifoldeb y tenant yw sicrhau ei fod yn rhoi gwybod yn syth i ysgrifennydd y safle a'r swyddog rhandiroedd os yw'n cael cydweithiwr newydd.

Ni ddylid gwneud unrhyw gytundebau rhwng tenantiaid heb roi gwybod i ysgrifennydd y safle. Mae hyn yn cynnwys trin a dyfrio gan bobl eraill, a chymryd cynnyrch o leiniau nad ydynt yn eiddo i chi.

Rhaid hysbysu ysgrifennydd y safle am y canlynol:

- Unrhyw gynlluniau i ddod ag ymwelwyr i'r safle.
- Unrhyw gynlluniau i ychwanegu adeileddau ychwanegol i'r llain.
- Unrhyw gynlluniau i ddangos y llain i asiantaethau allanol. Rhaid i hyn ddigwydd o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn i unrhyw un o'r uchod ddigwydd.

Rhaid i aelodau o'r teulu / ffrindiau sy'n dod ar y safle i ddyfrio eich llain ddyfrio eich llain CHI yn unig ac ni ddylent fynd ar leiniau eraill. Lle bo modd, dylid hysbysu ysgrifennydd y safle o hyn ymlaen llaw.

Bydd ysgrifennydd y safle yn rhoi nifer o opsiynau i chi ar gyfer sut y gellir cyfleu hyn iddo. Lle nad oes gan safle ysgrifennydd safle, dylid hysbysu'r swyddog rhandiroedd drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost richard.swenson@newport.gov.uk

Ni ddylid caniatáu unrhyw un heb allwedd gael mynediad i'r safle.

Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

10. Y MODD Y MEDRWCH DDEFNYDDIO'CH LLAIN

- Yn unol ag adran 2.5 y cytundeb tenantiaeth (bydd y tenant yn trin y tir fel rhandir gardd yn unig, a rhaid peidio â'i ddefnyddio ar gyfer busnes neu fasnach neu storio).
- Rhaid cadw'r rhandir yn lân a thrin y tir i safon dda.
- Eich dyletswydd chi yw gofalu bod arferion gweithio yn ddiogel mewn perthynas â chi'ch hun, tenantiaid cyfagos, ymwelwyr a phlant.

BETH I'W WNEUD A PHEIDIO Â'I WNEUD WRTH RENTU RHANDIR



GWNEUD

- Talu eich rhent ar amser
- Defnyddio eich rhandir i dyfu llysiau, ffrwythau a blodau
- Cadw chwyn dan reolaeth
- Cadw llwybrau a ffyrdd mynediad yn glir
- Clirio unrhyw sbwriel, gan ei gompostio lle bo modd
- Rhoi gwybod i ni os byddwch yn newid eich cyfeiriad



PHEIDIO

- Defnyddio peiriannau (peiriannau tyrchu, strimwyr ac ati) rhwng 7pm a 10am yn gynwysedig, o ddydd Sul i ddydd Sadwrn
- Defnyddio pibellau dŵr neu chwistrellwyr
- Cynnau coelcerthi neu danau neu gynnal unrhyw weithgaredd arall sy'n achosi llygredd mwg a llygredd aer (gweler ysgrifennydd y safle am eithriadau i hyn)
- Defnyddio weiren bigog ar y llain
- Rhedeg busnes neu isosod eich llain
- Defnyddio chwynladdwyr neu blaladdwyr sy'n achosi niwsans a difrod posibl i gnydau
- Cadw da byw ar y llain
- Gadael gatiau ar agor wrth ddod i mewn neu wrth adael y safle
- Glanhau esgidiau neu offer yn y cafnau dŵr
- Codi dalennau metel o gwmpas ffin y llain
- Gadael i'ch llain ddirywio gan nad yw'n cael ei thrin
- Cymryd cnydau neu eitemau personol eraill o leiniau eraill heb ganiatâd deiliad y llain
- Defnyddio unrhyw fath o wres mewn cytiau, siediau neu dai gwydr
- Dod â phridd heb ei ardystio i safle unrhyw rhandir. Mae hyn er mwyn atal problemau fel clymog Japan, jac y neidiwr neu rywogaethau goresgynnol eraill.
- Gwneud elw o'ch llain



Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

11. YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Er diogelwch a lles pob tenant, mae dwyn cynnyrch neu eiddo, tipio anghyfreithlon, difrod bwriadol, bwlio hiliol, homoffobig neu fathau eraill o fwlio gwahaniaethol, neu ymddygiad treisgar, bygythiol neu wrthgymdeithasol arall yn annerbyniol a byddant yn arwain at derfynu'r denantiaeth ar unwaith.

Gall y cyngor yn ôl ei ddisgresiwn roi llythyr o rybudd mewn perthynas â mathau eraill o ymddygiad yn nodi y bydd y denantiaeth yn cael ei therfynu ar unwaith os bydd hyn yn digwydd eto.

Bydd llythyr yn cael ei anfon yn nodi dyddiad y troi allan ac yn rhoi 28 diwrnod i symud unrhyw eiddo personol o'r safle.

Ni fydd Cyngor Dinas Casnewydd nac unrhyw denant newydd yn gyfrifol am nwyddau neu declynnau a adawyd ar y llain ar ôl y dyddiad hwn.

Bydd yn ofynnol i unrhyw denant sy'n achosi difrod bwriadol neu ddifrod direswm i unrhyw ffens, giât neu brif lwybr, unrhyw bibell ddŵr neu dap, neu unrhyw sied offer, cwt neu dŷ gwydr, neu unrhyw eiddo Cyngor Dinas Casnewydd wneud iawn am y difrod ar ei gost ei hun neu fe fydd y cyngor yn trwsio'r difrod ac yn codi tâl ar y tenant am y gost o wneud y gwaith atgyweirio.

Dim ond trwy apwyntiad y bydd unrhyw denant sy'n cael ei droi allan oherwydd lladrad, trais neu ymddygiad bygythiol yn gallu cael mynediad i'r safle i gasglu ei eiddo.

12. ARCHWILIAD LLAIN

- Bydd holl safleoedd rhandir y cyngor yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan y swyddog rhandiroedd.
- Os oes unrhyw ddeunydd/sbwriel ar y llain na ddylai fod yno, bydd gennych saith diwrnod i'w symud. Bydd y rhybudd hwn yn cael ei roi i chi gan ysgrifennydd y safle os oes un neu ei anfon atoch gan y swyddog rhandiroedd. Os yw'r deunydd yn parhau i fod ar eich llain ar ôl yr amser hwn, gall arwain at gamau pellach, a gallech dderbyn bil am gostau clirio.
- Bydd unrhyw argymhellion ynghylch cynnal a chadw'r lleiniau ar adeg yr arolygiad yn cael eu cyfeirio at ysgrifennydd y safle a, lle bo angen, bydd hysbysiad rhybuddio 14 diwrnod yn cael ei roi i'r tenant os oes rheolau'n cael eu torri, ac yna hysbysiad troi allan os nad oes gwelliant o fewn yr 14 diwrnod.
- Bydd yr hysbysadau rhybuddio yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r llawlyfr, ond os rhoddir tri hysbysiad rhybuddio mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i'r un tenant ar yr un safle, bydd hysbysiad troi allan bellach yn dilyn yn awtomatig.
 - Ni fydd modd apelio ar y cam olaf hwn.
 - Bydd achosion o dorri'r cytundeb tenantiaeth yn cael eu rheoli er tegwch i denantiaid eraill a phobl sy'n disgwyl am lain.
- Bydd gan unrhyw swyddog Cyngor Dinas Casnewydd yr hawl ar unrhyw adeg i fynd i mewn ac archwilio'r llain, sied neu dŷ gwydr.



Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

13. GWAREDU SBWRIEL

Y tenant sy'n gyfrifol am unrhyw sbwriel neu ddeunyddiau planhigion nad oes eu hangen a rhaid eu gwaredu mewn modd cyfrifol. Ni ddylid storio unrhyw ddeunydd o'r fath ar y safle oni bai ei fod mewn man compostio sydd wedi'i drefnu – awgrymir ei symud i'r safle amwynder dinesig.

Nid oes sgipiau bellach ar gael i'w defnyddio. Anogir tenantiaid i naddu, darnio, compostio ac ailgylchu ar y safle er mwyn atal gormodedd o sbwriel rhag cronni.

Peidiwch â gadael unrhyw wastraff ar y rhandiroedd nac o'u cwmpas – gallai hyn fod yn torri Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a gall olygu dirwy o hyd at £20,000 neu chwe mis o garchar.

Cyfrifoldeb tenantiaid ar holl safleoedd rhandir Casnewydd yw ond dod hyn y gellir ei ddefnyddio i dyfu planhigion i'r safle.

Rhaid symud yr holl wastraff na ellir ei gompostio o'r safle.

Gellir codi tâl am glirio gwastraff o leiniau na ellir ei gompostio.

14. ILDIO LLAIN

Wrth ildio llain, rhaid symud eich HOLL eiddo oddi yno. Gallai methu â gwneud hyn arwain at godi tâl i'w waredu.

15. COMPOSTIO

Anogir compostio ar safleoedd rhandir i leihau swmp y gwastraff. Bydd tomen gompost dda sydd yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol yn cynhyrchu maethynnau ar gyfer y llain am y tymor cyfan.

- Ailgylchu maethynnau – gellir dychwelyd y mwynau a gasglwyd gan y planhigyn yn ystod ei dyfiant yn ôl i'r pridd trwy ddefnyddio compost. Dylai'r amrywiaeth o ddeunyddiau planhigion sy'n cael eu rhoi fel arfer ar domen gompost sicrhau bod y bwydydd planhigion hyn yn gytbwys ac y byddant ar gael dros gyfnod hir wrth i'r compost ddadelfennu'n araf yn y pridd.
- Gwella adeiledd y pridd – bydd gwella adeiledd y pridd yn creu gofodau aer i wreiddiau dyfu, yn gwella draeniad wrth gadw lleithder o hyd, ac yn cynhyrchu pridd cynhesach.
- Gwella'r gallu i ddal lleithder a maethynnau – anogir cadw dŵr ar leiniau rhandir i arbed yr adnodd gwerthfawr hwn. Gellir gwella gallu pridd ysgafn i ddal dŵr yn sylweddol trwy ychwanegu compost. Mae gan ddeunydd organig y gallu i leihau faint o fwydydd planhigion sy'n cael eu golchi allan o'r pridd gan y glaw.
- Gwella gweithgarwch biolegol – bydd defnyddio compost yn cynyddu nifer y micro-organebau buddiol, mwydod a phryfed ysglyfaethus. O gael amser ac amodau addas, bydd yr holl wastraff anifeiliaid a llystyfiant yn pydru ac yn rhyddhau ei fwydydd planhigion. Gellir compostio bron pob deunydd o'r fath, ond mae'n well osgoi rhai deunyddiau am resymau ymarferol neu oherwydd eu bod wedi eu halogi.

Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

- Os bydd deunyddiau pren mwy yn cael eu darnio yn gyntaf, byddant yn dadelfennu yn gynt yn ystod y broses gompostio.

Gall compost gynnwys y canlynol:

- Deunydd meddal, gwlyb, e.e. toriadau gwair, dail te, chwyn, ffrwythau, pilion llysiau, dail gwyrdd cnydau bresych, dail gwyrdd gwreiddgynyddau, dail riwbob ac ati.
- Deunyddiau coesynog sy'n cynnwys llai o leithder, e.e. torion gwrychoedd, deunydd wedi'i docio o goed ffrwythau yn yr haf, coesynnau corn melys, dail, coesynnau blodyn yr haul, coesynnau cnydau bresych ac ati. Mae'n well darnio'r deunyddiau hyn cyn eu compostio er mwyn helpu'r broses o ddadelfennu.
- Mae tail sydd wedi pydru'n dda yn ddeunydd da iawn, ond bydd gwellt a gwair oni bai eu bod wedi pydru'n dda yn trwytholchi nitrogen o'r pridd wrth ddadelfennu ac ni ddylid eu defnyddio os na fyddant wedi pydru'n dda.
- Chwyn, e.e. mae llawer o arddwyr yn argymell y dylai chwyn lluosflwydd neu'r rhai sydd â phennau hadau gael eu dinistrio trwy eu llosgi – nid yw gwneud hyn yn hanfodol. Gellir ailgylchu chwyn ar y domen gompost, ac mae'r ffaith na chaniateir cynnwys coelcerthi mwyach yn golygu mai compostio yw'r ffordd orau o gael gwared ar y chwyn hyn. Mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar p'un a yw hadau a gwreiddiau chwyn byw yn ymddangos mewn compost ai peidio.
- Gwres – mae gwell siawns o ladd gwreiddiau a hadau trwy osod yr hadau yng nghanol y domen. Mae tomen gompost wedi'i chreu gan ddefnyddio tail anifeiliaid ffres yn lle delfrydol i ladd hadau chwyn, chwyn a gwreiddiau.
- Gwahardd golau – bydd cynhwysydd compost gwrth-olau yn helpu i atal bwyd rhag cael ei gynhyrchu i fwydo chwyn lluosflwydd a bydd hyn yn cael gwared ohonynt yn y pen draw. Gall bwyd o fewn systemau gwreiddiau gymryd ychydig yn hwy oherwydd y bwyd sy'n cael ei storio o fewn y system wreiddiau. Ni ddylid rhoi taglys a marchwellt ar y domen gompost.



Cynwysyddion compost

- Mae yna lawer o fathau ar gael ond fe ddylech ddewis un fydd yn addas i'r pwrpas, yn gwrthsefyll y tywydd, yn caniatáu llif aer, ac yn ddigon cryf i wrthsefyll gwlypter parhaus. Efallai yr hoffech ystyried y nodweddion hyn:
- Caead i gadw gwres – bydd cadw'r gwres sylweddol a gynhyrchir gan domen gompost dda yn sicrhau bod y deunydd yn dadelfennu yn gyflym ac yn helpu i ddinistrio hadau chwyn a phlanhigion lluosflwydd.

Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

- AcMynediad at y compost – gall compost sydd wedi aeddfedu fod yn drwm felly bydd cynhwysydd sydd wedi'i ddylunio fel bod modd cael gafael ar y compost yn hawdd yn arbed llawer o waith caled.
- Gwrthsefyll pydru – mae'r micro-organebau sy'n bresennol yn y domen yn medru ymosod ar rai deunyddiau a ddefnyddir i gynhyrchu cynwysyddion compost. Dylid ystyried beth yw oes debygol deunyddiau penodol.
- Llif aer – dylai sicrhau llif aer da rhwng yr haenau llystyfiant yn y compost, a bydd troi'r compost yn rheolaidd yn cyflymu'r broses bydru.

Gall fermin fod yn bresennol mewn tomennu compost a dylid cymryd gofal oherwydd hyn. Mae draenogod ac anifeiliaid eraill sy'n gaeafgysgu hefyd yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn y gaeaf gan eu bod yn fannau cynnes felly mae angen cymryd gofal arbennig wrth symud y compost er mwyn ei ddefnyddio.

Cynhwysion compost

Ysgogwyr ('pydru poethach'), e.e. dail cyfardwf, chwyn ifanc, toriadau gwair, tail ieir, tail colomennod.

Gallwch hefyd gompostio lludw pren, cardbord, tywelion papur, tiwbiau cardbord a blychau wyau. Byddai deiet cytbwys ar gyfer eich compost yn cynnwys gweddillion ffrwythau a llysiau, bagiau te, coffi wedi'i falu, hen flodau, planhigion llysiau, pren meddal wedi'i docio, a deunydd o welyau gerbilod, bochdewion neu gwningod.

Bydd rhai deunyddiau'n pydru'n arafach, gan gynnwys dail yr hydref, pren wedi'i docio o wrychoedd yn eu llawn dwf, blawd llif a naddion pren.

Peidiwch â defnyddio'r deunyddiau canlynol yn eich compost: cig, pysgod, bwyd wedi'i goginio, lludw glo neu olog, sarn cathod, baw ci, cewynnau tafladwy, cylchgronau sgleiniog neu ddeunyddiau heintus.

Pryd bydd yn barod?

Gellir gwneud compost mewn chwech i wyth wythnos, neu gall gymryd blwyddyn neu fwy. Yn gyffredinol, po fwyaf o ymdrech a wnewch, y cyflymaf y byddwch yn cael compost.

Pan fydd y cynhwysion yr ydych wedi'u rhoi yn eich cynhwysydd wedi troi'n ddeunydd brown tywyll sy'n aroglu o'r pridd, mae'r broses gompostio wedi'i chwblhau.

Mae'n well ei adael am fis neu ddau ymhellach er mwyn iddo aeddfedu cyn ei ddefnyddio.


Peidiwch â phoeni os nad yw'ch compost yn fân ac yn friwsionllyd – fe allwch ddal ei ddefnyddio hyd yn oed os yw'n dalpiog, yn ludiog, neu fel cortyn gyda darnau o frigau a phlisgyn wy i'w gweld ynddo o hyd.



Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

16. CROP ROTATION ON THE ALLOTMENT

Gwnewch yn siŵr nad yw'r un cnwd yn cael ei dyfu yn yr un rhan o'r ddaear flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn lle, cylchdrowch gnydau i rannau eraill o'r llain. Yn ddelfrydol, mae cylchdroi cnydau yn digwydd dros gyfnod o bedair blynedd, er enghraifft:



17. RHEOLI PLÂU A CHLEFYDAU

Bydd cylchdroi cnydau yn golygu y bydd plâu a chlefydau yn dipyn llai tebygol o gronni ym mhriidd eich rhandir a bydd planhigion o deulu cnydau bresych (bresych, blodfresych, brocoli ac ati) yn cael budd arbennig os cânt eu tyfu mewn safle gwahanol bob blwyddyn.

18. PLANT AR Y SAFLE

Er ein bod yn awyddus i gael y genhedlaeth nesaf o egin arddwyr a garddwriaethwyr i gymryd rhan a dod i gynorthwyo deiliaid lleiniau, gall safleoedd rhandir fod yn beryglus a rhaid i blant gael eu goruchwylio bob amser.

Mae tai gwydr yn cynnwys gwydr a gall offer fod yn finio. Gwnewch yn siŵr bod plant yn ymwybodol o'r risgiau.

Llawlyfr i denantiaid rhandiroedd

19. CŴN

Caniateir cŵn ar y safle o dan yr amodau canlynol:

- Bod y tenant yn gyfrifol amdanynt
- Eu bod wedi'u clymu ar lain y tenant
- Nad ydynt yn achosi unrhyw niwsans i denantiaid cyfagos
- Bod unrhyw faw yn cael ei lanhau gan y perchennog cyn gadael y safle

Os bydd yr amodau hyn yn cael eu torri, ni fydd cŵn yn cael eu caniatáu ar y safle.

20. OS HOFFECH WIRFODDOLI I HELPU I WELLA'R SAFLE

Mae rhywbeth wastad i'w wneud ar randir. Efallai y bydd rhai tenantiaid angen cymorth gyda'u llain o bryd i'w gilydd ac mae gwaith cynnal a chadw a gwelliannau i'r safle yn cael eu gwneud ar randiroedd ar hyd y flwyddyn. Gallai hyn fod yn rhywbeth mor syml ag adeiladu ychydig o flychau adar neu westai trychfilod neu strimio neu docio ardal sydd wedi gordyfu.

Siaradwch ag ysgrifennydd eich safle os ydych am gymryd rhan. Bydd croeso cynnes i chi.

Cyngor Dinas Casnewydd

Medi 2022



NEWPORT

CITY COUNCIL

CYNGOR DINAS

CASNEWYDD